Gwefan
www.ysgolgymraeg.com

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

**Parcio ar gyfer y Cyngerdd Nadolig** – Cofiwch fod parcio ger Canolfan y Celfyddydau yn medru achosi trafferthion gan fod nifer fawr o geir yn ceisio cyrraedd ar yr un amser. Gofynnir i bawb sicrhau eich bod yn cyrraedd mewn da bryd er mwyn arbed unrhyw bryder i chi a'ch plant cyn y gyngerdd. Mae Brynamlwg wedi gofyn i ni atgoffa rhieni i beidio â pharcio yno gan fod yna ddigwyddiad arall wedi ei drefnu yno ar yr un noson.

**Partion Nadolig** – Gofynnir yn garedig am gyfraniad o 50c ar gyfer darparu bwyd ar gyfer partion Nadolig ddiwedd tymor pob dosbarth. Mi fydd yr ysgol yn trefnu'r bwyd.

**Pentre Bach** - Cofiwch fod disgyblion y Dosbarth Derbyn yn ymweld â Phentre Bach ar ddydd Mercher, Rhagfyr 12fed.

**Arad Goch** – Mi fydd Arad Goch yn perfformio 'Ble mae'r dail yn Hedfan' i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ar ddydd Iau, Rhagfyr 13eg a dydd Gwener, Rhagfyr 14eg – mae'r weithgaredd yn rhad ac am ddim.

**Meithrin i Nant yr Arian** – Mi fydd disgyblion y Meithrin (bore yn unig) yn ymweld â Nant yr Arian ar fore dydd Gwener, Rhagfyr 14eg.

**Canu Carolau** – Mi fydd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn canu carolau yn y gymuned ar nos Lun, Rhagfyr 17eg rhwng 5 o'r gloch a 6.30. Mi fydd y Gymdeithas yn dosbarthu llythyr yn fuan yn nodi'r llefydd cyfarfod. Mi fydd croeso i bawb ddychwelyd i'r ysgol i gael lluniaeth ysgafn am 6.30.

**Cyngerdd Cerddorol yn y Neuadd Fawr** – Mi fydd disgyblion Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn cerdded i'r Neuadd Fawr ar brynhawn ddydd Llun, Rhagfyr 17eg ar gyfer cyngerdd cerddorol rhad ac am ddim gan Wasanaeth Cerdd Ceredigion. Os fydd hi'n glawio yna mi fyddwn yn trefnu bysiau ac mi fyddwn yn gofyn am gyfraniad o 50c ar y dydd Mawrth.19eg.

**Cinio Nadolig yr Ysgol** – Dydd Mercher, Rhagfyr 19eg.

**Sinema'r Commodore** – Mi fydd yr ysgol gyfan (heblaw'r Meithrin) yn ymweld â Sinema'r Commodore i weld 'Arthur Christmas' ar brynhawn ddydd Iau, Rhagfyr 20fed. Y gost yn cynnwys cludiant i'r sinema fydd £1.50. **MI FYDD ANGEN I CHWI GASGLU'R PLANT O'R SINEMA AM 3.15**

**Gwyliau'r Nadolig** – Mi fydd yr ysgol yn cau am 2 o'r gloch ar ddydd Gwener, Rhagfyr 21ain ac yn ail agor ar ddydd Mawrth, Ionawr 8fed, 2013

**Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**R C Williams, Pennaeth 10/12/2012**

Gwefan
www.ysgolgymraeg.com

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

**Christmas Concert – Parking** – Please remember that parking at the Arts Centre can be difficult as there are so many cars arriving at the same time. Please ensure that you arrive early in order to avoid any pre-concert stress for yourself and your children! Brynamlwg have asked us to remind parents not to park there as they have arranged another function on the same evening.

**Christmas Parties** – We kindly ask for a contribution of 50p towards the cost of the food for the Christmas parties arranged for every class. The school will organize the food.

**Pentre Bach** – Please remember that the Reception Class will be visiting Pentre Bach on Wednesday, December 12th

**Arad Goch** – Arad Goch will be performing 'Ble mae'r dail yn hedfan' to the Foundation Stage children on Thursday, December 13th and Friday, December 14th - there will be no charge

**Nursery Class to Nant yr Arian** – Nursery children (mornings only) will be visiting Nant yr Arian on Friday morning, December 14th

**Carol Singing** – The PTA will be singing carols in the community on Monday evening, December 17th from 5 o'clock to 6.30. The PTA will distribute a letter shortly noting the meeting points. Everyone is welcome to return to school for light refreshments at 6.30.

**Musical Concert at the Great Hall** – Years 3, 4, 5 and 6 will be walking to the Great Hall on Monday, December 17th to see a free concert arranged by the Ceredigion Music Service. If it will be raining then we will arrange buses and ask for a contribution of 50 pence on the Tuesday.

**School Christmas Dinner** – Wednesday, December 19th.

**Commodore Cinema** – The whole school (apart from the Nursery class) will be visiting the Commodore Cinema to see 'Arthur Christmas' on Thursday afternoon, December 20th. The cost including transport to the cinema will be £1.50. **YOU WILL NEED TO COLLECT YOUR CHILDREN FROM THE CINEMA AT 3.15.**

**Christmas Holidays** – The school will close at 2 o'clock on Friday, December 21st and will re-open on Tuesday, January 8th 2013.

**If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.**

**R C Williams, Headteacher 10/12/2012**